


Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Monitro Blynnyddol 2025 - 2026



monmouthshire
sir fynwy



Cyflwyniad a Chyd-destun Polisi

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn yn rhoi sylw i gynnydd yn ystod y cyfnod yn diweddu ym mis Mawrth 2026. Mae'n rhoi adroddiad ar gynnydd ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 20 Chwefror 2024. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diweddaraf ar gael ar wefan y Cyngor yn: <https://www.monmouthshire.gov.uk/equality-and-diversity/>

Cyswllt gyda strategaethau

Nid yw hwn yn gynllun sy'n sefyll ar ei ben ei hun ac mae ganddo gyswllt agos gyda nifer o strategaethau allweddol a pholisïau eraill y cyngor, partneriaethau a chenedlaethol. Mae gan rai ohonynt ffocws penodol ar gydraddoldeb ac mae eraill wedi cynnwys cydraddoldeb fel un o'r themâu allweddol. Mae'r dilynol yn enghreifftiau:

- Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Cymraeg 2050 (1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050)
- Strategaeth Mwy na Geiriau
- Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy 2011-21
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 1 Ebrill 2016
- Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LDHTC+
- Cynllun Gweithredu ar Anabledd
- Cynllun Hybu Cydraddoldeb Rhywedd

Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gyda'i ddyletswyddau cyffredinol a phenodol a amlygir isod, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn rhoi cyfle iddo ddangos ei ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a fu'n nodwedd o'i swyddogaethau cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

Cyd-destun Deddfwriaethol

Dyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010

Wrth weithredu ei swyddogaethau mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyladwy i

1. ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan y Ddeddf;
2. hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu hynny;
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu hynny.

Mae'r Ddeddf yn esbonio fod rhoi sylw dyladwy i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- Dileu neu leihau anfanteision a gaiff eu dioddef gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle maent yn wahanol i bobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Diben bras y dyletswyddau penodol yw helpu cyrff cyhoeddus, tebyg i'r Cyngor hwn, wrth gyflawni eu dyletswydd gyffredinol, ac i gynorthwyo tryloywder. Caiff y dyletswyddau penodol eu gosod yng Nghymru gan Reoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) (Cymru).

Y dilynol yw'r dyletswyddau penodol:

- Gosod amcanion cydraddoldeb a chyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth ar gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
- Caffael
- Adroddiadau a chyhoeddi

Ein Sylfaen: Diben a Gwerthoedd

Ein Diben

Bydd Sir Fynwy yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas ar gyfer pawb ar bob cam o fywyd.

Mae'r diben hwn yn ganolog i bopeth a wnawn i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy.

Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn bwysig i ni. Maent yn gosod ein disgwyliadau ar ein cyfer ein hunain, ein gilydd a'r ffordd y cynhaliwn fusnes gyda sefydliadau y gweithiwn gyda nhw ar eich rhan.

Ein gwerthoedd yw:

Gwaith Tîm

Mae cydweithredu yn ganolog i bopeth a wnawn. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Gwnawn y gorau oll o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Bod yn agored

Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt.

Hyblygrwydd

Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i goleddu syniadau newydd o weithio.

Tegwch

Darparwn gyfleoedd i'n holl bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson, gan gydnabod y bydd angen i ni weithiau gymryd camau gweithredu cadarnhaol i oresgyn rhai o'r heriau sy'n wynebu pobl gyda gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Caredigrwydd

Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd y berthynas a'r cysylltiad sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon pob rhyngweithio.

Amcanion cydraddoldeb strategol Sir Fynwy 2024-2028

Yr amcanion strategol a gytunwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yw:

- **Amcan 1:** Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.
- **Amcan 2:** Cefnogi creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.
- **Amcan 3:** Gweithio gyda phartneriaid a phreswylwyr i adeiladu cymunedau cynhwysol a chydlynol.
- **Amcan 4:** Ehangu ein darpariaeth o wasanaethau cymunedol sy'n ymestyn disgwyliad oes iach pobl.
- **Amcan 5:** Sicrhau fod ein gwasanaethau yn hygyrch i'r cyhoedd.
- **Amcan 6:** Sicrhau fod gennym weithlu amrywiol a gweithle hollol gynhwysol
- **Amcan 7:** Gostwng y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd ar yr amcanion hyn.

1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

Oedran	x	Crefydd neu Gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu Rhywedd		Cyfeiriadedd Rhywiol	x
Priodas neu Bartneriaeth Sifil		Yr Iaith Gymraeg	x
Beichiogrwydd neu Famolaeth		Tlodi	x
Hil	x		

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
Gweithio gyda phartneriaid ar draws Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, yn cynnwys lechyd Cyhoeddus a'r GIG i ymwreiddio camau gweithredu i ostwng anghydraddoldeb iechyd mewn	Cefnogi plant , pobl ifanc a theuluoedd i wella eu hiechyd a'u llesiant	Rheolwr Partneriaethau Strategol	Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent wedi parhau i symud ymlaen â'i flaenoriaeth 'Dechrau Gorau mewn Bywyd', gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y cam cynharaf a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae'r BGC wedi ymrwymo i ymgorffori egwyddorion Marmot yn ei ddull cyflawni. Mae'r grŵp arweinyddiaeth rhanbarthol 'Dechrau Gorau mewn Bywyd' yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, gyda Chyngor Sir Fynwy yn parhau i chwarae rhan weithredol. Mae'r grŵp yn gweithio ar draws Gwent, gan gynnwys Sir Fynwy, i nodi a mynd i'r afael â phrif ysgogwyr anghydraddoldeb. Ar lefel leol, bydd Grŵp Cyflenwi Lleol Sir Fynwy (is-grŵp lleol o'r BGC)

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
gwasanaethau blynyddoedd cynnar.			yn chwarae rôl allweddol wrth lunio a goruchwyllo'r cyflawniad. Bydd y grŵp hwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu lleol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r BGC, gan sicrhau bod amcanion rhanbarthol yn cyfieithu'n ganlyniadau ystyrlon i gymunedau lleol ac yn cyfrannu at wella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y sir.
Cynyddu'r nifer sy'n cymryd prydau ysgol am ddim gan ganolbwyntio ar yr ysgolion hynny lle mae'r angen mwyaf.	Dim plentyn yn newynnog yn yr ysgol.	Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc	Mae prydau ysgol gynradd am ddim ar gael i bob disgybl cynradd yn Sir Fynwy, gyda defnydd cyfartalog o 75% ar draws y sir. Mae dadansoddiad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 a'r Hawl i Brydau Ysgol Am Ddim (PYaDd) wedi nodi ysgolion â blaenoriaeth lle mae'r amddifadedd uchaf a'r defnydd isaf, gyda chefnogaeth Gweithgor Prydau Ysgol sydd newydd ei sefydlu i gyflwyno ymyriadau wedi'u targedu yn 2026/27. Cyflwynwyd Chwedlau Bwyd Food Stories ar draws deg ysgol rhwng 2024–2026, gyda phecyn cymorth yn cael ei ddatblygu i'w gyflwyno'n ehangach o fis Medi 2026. Mae hyfforddiant Cogyddion mewn Ysgolion wedi'i gyflwyno ar draws 25 o'r 31 ysgol ers 2025, gyda chyflwyno pellach. Mae'r ddwy raglen wedi canolbwyntio ar ysgolion blaenoriaeth, gan weithio gyda staff, rhieni a disgyblion i ddeall rhwystrau i'w ddefnyddio, adeiladu hyder bwyd, a chynyddu ymgysylltiad â phrydau ysgol.
Gweithredu i ostwng tlodi yn ein hysgolion drwy ostwng cost y diwrnod ysgol, gan sylweddoli fod pob punt yn cyfrif i lawer o deuluoedd.	Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu hiechyd a'u llesiant.	Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc	Mae hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a Swyddogion Cyswllt Teulu wedi helpu'r staff allweddol hyn i gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed, yn enwedig gyda phresenoldeb. Mae eu gwaith hefyd yn cefnogi teuluoedd a allai fod yn profi heriau ehangach. Mae gwaith i addysgu sgiliau coginio a chynyddu'r defnydd o brydau ysgol am ddim wedi parhau. Mae pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu fel y gall pob ysgol ddefnyddio adnoddau'r prosiect ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Gall teuluoedd hefyd ddefnyddio'r adnoddau gartref i fagu hyder wrth goginio gyda chynhwysion ffres, a all gostio llai na phrydau

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
			parod. Dyrannodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £450,000 i ysgolion Sir Fynwy i'w helpu i ganolbwyntio'n fwy cymunedol. Cyflwynwyd tri syniad prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys cymorth i deuluoedd gyda chostau byw, megis creu cegin gymunedol, adeiladu ardal gemau aml-ddefnydd at ddefnydd cymunedol am ffi isafswm, ac adnewyddu ystafell ddosbarth ysgol uwchradd ar gyfer grwpiau cymunedol a sefydliadau sy'n cefnogi teuluoedd gyda chyngor costau byw, gwybodaeth am fudd-daliadau a chymorth lles.
Sicrhau fod pob ysgol yn Sir Fynwy yn dynodi uwch arweinydd sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi a chodi cyflawniad dysgwyr agored i niwed.	Cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion bregus i gyflawni eu potensial llawn.	Prif Swyddog – Plant a Phobl Ifanc	Mae pob ysgol yn amlinellu eu cefnogaeth i Grwpiau Agored i Niwed, a ddiffinnir fel y rhai a allai fod yn fwy tebygol o brofi rhwystrau emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol ac yn cadw data fel rhan o'u Cynllun Gwella Ysgolion. Gall y rhain gynnwys caledi ariannol a chymdeithasol o fewn teuluoedd disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYaDd) a disgyblion o deuluoedd incwm isel.
Datblygu strategaeth newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a phecynnau cymorth ac adnoddau cysylltiedig, gyda ffocws ar gefnogi	Cefnogi dysgwyr agored i niwed i gyflawni eu potensial llawn.	Pennaeth Cynhwysiant	Rydym wedi cwblhau'r Strategaeth Cynhwysiant, polisi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac adnoddau ategol. Roedd adroddiad arolygu Estyn yr awdurdod lleol (Ionawr 2026) yn tynnu sylw at ein gweledigaeth strategol glir ar gyfer cynhwysiant a gwell darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Mae systemau wedi'u hail-lunio a chydweithrediad cryfach wedi cynyddu hyder a chymhwysedd wrth ddiwallu ystod eang o anghenion disgyblion.

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
ymddygiad cadarnhaol.			
Parhau i gymryd dull gweithredu ataliol i ostwng absenoldeb mewn ysgolion drwy ddatblygu dulliau Osgoi Ysgol Seiliedig ar Emosiwn ac Ystyriol o Drawma mewn ysgolion	Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyflawni eu potensial llawn	Pennaeth Cynhwysiant	Rydym yn parhau i gynnig rhaglen gref o Ddysgu Proffesiynol, gan gyfuno dulliau ataliol ysgol gyfan ag ymyriadau wedi'u targedu. Mae hyn yn cynnwys adnoddau Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol wedi'u hadnewyddu, Fforwm Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol aml-asiantaeth a Gweithgor Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiynol Cyngor Sir Fynwy, ochr yn ochr â hyfforddiant a goruchwyliaeth ymarfer aml-haen sy'n ystyriol o drawma. Mae canllawiau ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn cael eu cwblhau. Mae presenoldeb wedi parhau i wella. Cynyddodd presenoldeb cynradd o 93.6% yn 2023/24 i 93.8% yn 2024/25, gan gyrraedd 94.4% erbyn diwedd Gwanwyn 2025/26. Cynyddodd presenoldeb uwchradd o 89.0% i 89.5%, gan gyrraedd 90.7% erbyn Gwanwyn 2025/26. Roedd presenoldeb cyffredinol disgyblion oedran ysgol gorfodol yn 92.4% ar ddiwedd Gwanwyn 2025/26, yr uchaf yng Nghymru. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn is ond mae hefyd wedi gwella. Erbyn diwedd Gwanwyn 2025/26, roedd presenoldeb PYaDd cynradd wedi codi i 89.6% a phresenoldeb PYaDd uwchradd i 80.4%, i fyny o 89.1% a 79.0% yn y drefn honno yn 2024/25.
Gwella mynediad i, a defnydd, o ddata a gasglwyd gan ysgolion yn ymwneud â bwllo, aflonyddu a gwahaniaethu, a	Data gwell i roi cymorth i blant a phobl ifanc i deimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd ysgol.	Pennaeth Cynhwysiant	Rydym wedi adolygu a symleiddio'r templed Hawliau, Parch a Chydraddoldeb gyda chydweithwyr ysgol. Mae ysgolion yn defnyddio'r templed hwn bob tymor i riportio digwyddiadau bwllo a gwahaniaethol i'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cefnogi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Rydym wedi datblygu system electronig ar gyfer ysgolion uwchradd i gasglu gwybodaeth gyson a symleiddio adroddiadau. Mae'r system yn cael ei chyflwyno fesul cam, a bydd pob

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
rhoi cymorth.			un o'r pedair ysgol uwchradd yn ei defnyddio o dymor yr hydref 2026. Mae ansawdd y data a adroddwyd wedi gwella, ond mae angen rhagor o waith. Mae dau o'r pedwar clwstwr ysgol wedi cymryd rhan mewn cyrsiau arweinyddiaeth gwrth-hiliaeth. Mae adnoddau cwricwlwm wedi'u rhannu gyda'r ysgolion hynny i gefnogi eu datblygiad cwricwlwm gwrth-hiliaeth ac amrywiaeth. Rhannwyd Canllawiau Herio Bwlio a pholisïau enghreifftiol Cyngor Sir Fynwy i Ysgolion. Mae gan bob ysgol bolisi gwrth-fwlio ar waith sydd wedi'u sicrhau o ran ansawdd.
Darparu addysg gynhwysol o LHDTTC+ drwy adran Cydberthynas ac Addysg Rhywioldeb y Cwricwlwm i Cymru.	Plant, pobl ifanc a dysgwyr agored i niwed yn cael eu cefnogi'n gynhwysol.	Pennaeth Cynhwysiant	Rydym yn parhau i ddarparu grwpiau amser cinio LHDTTC+ rheolaidd mewn ysgolion: Yn Ysgol y Brenin Harri VIII (Y Fenni), mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn darparu clwb cinio LHDTTC+ gwarchodedig sy'n darparu gofod diogel dan arweiniad ieuencid. Cyflawnodd hyn 30 o ddarpariaethau LHDTTC+ gyda 267 o gysylltiadau mewn ysgolion, gan ragori ar y targed blyneddol. Mae'r sesiynau'n canolbwyntio ar gymorth cymheiriaid, hunaniaeth, lles, perthnasoedd, a materion ymarferol fel <i>dod allan</i>, gyda gweithgareddau anffurfiol (gemau, crefftiau, cwisiau) yn cefnogi'r ymgysylltu. Fe wnaethom sefydlu darpariaeth amser cinio LHDTTCRhA+ newydd yn Ysgol Cil-y-coed, yn dilyn trafodaethau gydag arweinyddiaeth yr ysgol, gan ymateb yn uniongyrchol i anghenion dysgwyr. Roedd gan hyn bresenoldeb cyfartalog o tua 14 o bobl ifanc fesul sesiwn, gydag ymgysylltiad wythnosol cyson. Mae'r gweithgareddau yn cael eu harwain gan bobl ifanc, gan gynnwys cwisiau hanes a baneri LHDTTC+, gwneud bathodynau/sticeri, cerddoriaeth a sesiynau trafodaeth. Mae pobl ifanc LHDTTC+ yn cael eu cefnogi i gael mynediad at

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
			ganolfannau ieuenctid mynediad agored cynhwysol (The Cabin, The Zone), gan sicrhau parhad rhwng darpariaeth ysgol a chymunedol. Mae teithiau wedi'u targedu (e.e. Ystafelloedd Dianc Caerdydd) ac ymgysylltu â Pride (e.e. Pride Cil-y-coed, gyda dros 220 o gysylltiadau) yn ehangu rhwydweithiau cymdeithasol a gwelededd. Mae pobl ifanc LHDTG+ yn elwa o gymorth wedi'i dargedu ehangach fel prosiect iechyd meddwl Shift a gwaith lles sy'n seiliedig ar gymheiriaid, sydd wedi sicrhau gwelliant lles canfyddedig uchel yn gyffredinol.
Gweithio gydag eraill i gynyddu darpariaeth gofal plant ac ansawdd mewn ardaloedd o amddifadedd uwch gyda'r nod o ostwng anghydraddoldeb.	Cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i wella eu llesiant.	Pennaeth Cyflawni ac Ymestyn	Fe wnaethom ddechrau blwyddyn ariannol 2025-26 gyda 94 o ddarparwyr gofal plant, gan gynnwys meithrinfeydd dydd, lleoliadau gofal sesiynol, gwarchodwyr plant a chlybiau y tu allan i'r ysgol. Yn ystod y flwyddyn, agorwyd dwy feithrinfa ddydd newydd, un yn Nhrefynwy ac un yng Nghil-y-coed. Newidiodd un darparwr sesiynol ei gofrestrriad i ofal dydd i gwrdd â cheisiadau rhieni am oriau hirach. Ychwanegodd un clwb ar ôl ysgol ofal plant i blant cyn ysgol, ac agorodd clwb ar ôl ysgol arall yng Nghil-y-coed. Byddwn yn parhau i fonitro cyflenwad a galw gofal plant a datblygu darpariaeth i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau. Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026, manteisiodd ymarferwyr gofal plant ar 64 o gyfleoedd hyfforddiant ar draws 23 cwrs. Roedd y rhain yn cynnwys cyrsiau statudol, fel Cymorth Cyntaf a Diogelu Pediatrig, a chysiau arfer gorau, fel Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma ac Ymarfer Anhiliol i Wrth-hiliol. Mae hyn wedi helpu i gynnal a gwella'r ddarpariaeth o ansawdd uchel yn ein lleoliadau gofal plant.

2. Cefnogi creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

Oedran	x	Crefydd neu greddo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Yr Iaith Gymraeg	x
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
Annog cwmnïau lleol i ddod yn gyflogwyr gydag achrediad hyderus o ran anabledd.	Pobl anabl â gwell mynediad i gyflogaeth. Mwy o gwmnïau lleol gyda statws hyder anabledd.	Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gostyngodd nifer y cwmnïau lleol a gofrestrwyd fel yn Hyderus o ran Anabledd (Lefel 1) o 39 i 27. Mae rhai o'r busnesau a ymrwymwyd yn flaenorol wedi rhoi'r gorau i fasnachu. Ar 31 Mawrth 2026, mae chwe chwmni lleol yn Gyflogwyr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2), gostyngiad bach o saith ym mis Mawrth 2025. O fis Mai 2026 ymlaen, rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar raglen ymgysylltu ar draws yr awdurdod gyda busnesau bach a chanolig sydd â safleoedd yn Sir Fynwy. Bydd y gwaith hwn yn hyrwyddo'r addewid Hyderus o ran Anabledd ac arferion gwaith cynhwysol. Rydym yn gobeithio y bydd yn cynyddu nifer y busnesau yn Sir Fynwy sy'n dod yn Hyderus o ran Anabledd.

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
Sicrhau bod ein dogfennau tendr yn annog a hyrwyddo amrywiaeth ymysg ein cyflenwyr a chontractwyr.	Cefnogi amrywiaeth o fewn y gweithle	Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg / Swyddog Arweiniol Caffael	Rydym yn defnyddio tendro i hyrwyddo amrywiaeth yn y gadwyn gyflenwi. Rydym yn defnyddio meini prawf i nodi a yw darpar gyflenwyr wedi bod yn rhan o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth; cael ymchwiliadau neu gyhuddiadau parhaus, mewn perthynas â hawliau dynol/caethwasiaeth fodern. Gofynnwn hefyd i gyflenwyr gael polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant clir a chyfredol i dystiolaeth o'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'u bod yn sicrhau bod pob gweithiwr yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb ac y cedwir at ofynion yr iaith Gymraeg. Ar gyfer rhai tendrau gwerth uwch, gofynnwn i gynigwyr gynnwys ymrwymadau lles cymunedol yn eu contractau. Gall y rhain gynnwys camau i fynd i'r afael â digartrefedd, lleihau anghydraddoldebau a gwella cyflogadwyedd i bobl dan anfantais a phobl ifanc. Mae Tîm Cyflenwi Cymunedol Cyngor Sir Fynwy yn cefnogi'r gwaith hwn. Mae yna hefyd gyfleoedd i gynnwys rhagor o wybodaeth o fewn manylebau ar bob prosiect unigol sy'n golygu y gall y timau cleientiaid hyrwyddo cyflawniadau penodol i'w prosiectau.
Darparu rhaglenni cyflogadwyedd a meithrin partneriaethau gyda chyflogwyr a busnesau lleol.	Cefnogir amrywiaeth o fewn y gweithle a gyda phartneriaid	Pennaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau	Rydym yn parhau i ddarparu ystod o raglenni cyflogadwyedd. Ers mis Ebrill 2025, rydym wedi cyflwyno'r rhaglen cyflogadwyedd 10 wythnos Ffocws ar y Dyfodol ar gyfer pobl ifanc 18 i 24 oed mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ers iddi ddechrau, mae'r rhaglen wedi cefnogi tua 60 o bobl ifanc, gyda 27 yn symud i gyflogaeth. Mae nifer o gyfranogwyr yn niwrowahanol. Rydym hefyd wedi dechrau rhedeg Rhaglenni Llwybr sy'n seiliedig ar y sector. Mae'r rhaglenni pedwar diwrnod hyn yn cynnwys cymwysterau achrededig, ymgysylltu â chyflogwyr a sgiliau cyflogadwyedd. Rydym wedi cwblhau dau lwybr lletygarwch, un gyda Kahva Café yn y Fenni ac un gyda'r Marmalade Tea Rooms yng Nghas-gwent. Bydd y ddau lwybr nesaf yn canolbwyntio ar waith cymorth mewn cydweithrediad â sefydliad Tai Taf.

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
Cadw rhwydwaith gynaliadwy a hygyrch o fysis cyhoeddus (yn cynnwys cludiant cymunedol) sy'n gwasanaethu canol ein trefi.	Cadw hygyrchedd i ganol trefi	Pennaeth Datgarboneiddio, Trafnidiaeth a Gwasanaethau Cymorth	Rydym wedi cymhwyso ein strategaeth Trafnidiaeth Leol, a fabwysiadwyd ym mis Mai 2024, gan weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu a mabwysiadu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, a fydd yn ffurfio fframwaith cyllid grant Trafnidiaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Yn ogystal, rydym wedi ymgysylltu â TrC a Llywodraeth Cymru ynghylch y Bil Diwygio Bysiau sydd ar ddod a'r effeithiau y bydd masnachfreinio yn ei chael ar Sir Fynwy, gan wneud y mwyaf o'r manteision i'r Sir. Parhawyd â'r holl wasanaethau bws ychwanegol a ychwanegwyd at y rhwydwaith yn 2024/25, gydag ymadawiadau hwyr ychwanegol ar y gwasanaeth 60. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth bws Grass Routes, er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i'r rhai mwyaf mewn angen.
Cynnig cyfleoedd rhwydweithio, cyfeirio a, lle'n briodol, gyllid grant i gefnogi arallgyfeirio busnesau gwledig.	Cefnogir amrywiaeth o fewn y gweithle a gyda phartneriaid	Pennaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau	Mae Busnes Trefynwy a Thîm Bwyd Cynaliadwy Cyngor Sir Fynwy wedi cynnig rhwydweithio, cefnogaeth, arwyddion a rhai cyfleoedd cyllid grant i gefnogi arallgyfeirio busnesau gwledig yn ystod 2025/26. Cefnogwyd pum busnes yn ystod 2025/26.
Darparu cefnogaeth ar gyfer creu 6,240 o gyfleoedd swydd cynaliadwy.	Mwy o bobl â mynediad i gyfleoedd cyflogaeth	Pennaeth Creu Lle, Adfywio, Priffyrdd a Llifogydd	Rydym wedi datblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Cymeradwywyd hyn gan y Cyngor ym mis Hydref 2025 cyn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) i'w archwilio ddechrau mis Tachwedd 2025. Bydd y CDLIN yn destun archwiliad annibynnol ym mis Mehefin a Gorffennaf 2026. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth i unrhyw un sydd â diddordeb mewn

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
			dechrau eu busnes eu hunain drwy'r prosiect Busnes Sir Fynwy (a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin). Fe wnaethom gynorthwyo 43 o fusnesau yn 2025/26 yn erbyn targed o 50.

3. Gweithio gyda phartneriaid a phreswylwyr i adeiladu cymunedau cynhwysol a chydlynus

Mae'r amcan hwn yn gysylltiedig â:

Oedran	x	Crefydd neu gredo	x
Anabledd	x	Rhyw	x
Ailbennu rhywedd	x	Cyfeiriadedd rhywiol	x
Priodas neu bartneriaeth sifil	x	Yr Iaith Gymraeg	x
Beichiogrwydd neu famolaeth	x	Tlodi	x
Hil	x		

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
Dathlu amrywiaeth a chynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth; yn cynnwys dyddiadau allweddol yn y calendr tebyg i'r Mis Hanes Du a Ramadan.	Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth yn y gymuned	Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg	Fe wnaethom gynnal sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiad rhyng-ffydd yn Neuadd y Sir, lle helpodd arweinwyr ffydd o gymunedau Mwslimaidd, Cristnogol, Bahá'í, Bwdhaidd a chymunedau ffydd eraill i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o wahanol grefyddau. Digwyddiad Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yng Nghastell Cil-y-coed a ddenodd filoedd wrth i'r gymuned ddangos ei gwerthfawrogiad, gan gynnwys personél sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr, milwyr wrth gefn, cadetiaid a'u teuluoedd. Menywod mewn Busnes - Digwyddiad Cymryd y Naid gyda'r nod o rymuso, ysbrydoli a chefnogi entrepreneuriaid benywaidd. Mae "Changing Faces of Chepstow" mewn oriel newydd, a ariannwyd gan

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
			Lywodraeth Cymru fel rhan o'u rhaglen Cymru Wrth-Hiliol ar gyfer Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon. Roedd digwyddiadau eraill yn cynnwys: Digwyddiad Grŵp Wcreinaidd Sir Fynwy (MUGiC) yng Nghas-gwent, Bore Coffi Masnach Deg mwyaf erioed y sir yn ystod Pythefnos Masnach Deg eleni, dathliad Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, Digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocaust, Digwyddiadau Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn, Diwrnod Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi. Fe wnaethom hefyd godi ymwybyddiaeth o wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, mis Pride, wythnos y Lluoedd Arfog, mis Hanes Pobl Dduon, mis Hanes LHDTc+ ac wythnos Niwroamrywiaeth.
Cefnogi a galluogi creu grwpiau cymunedol i sicrhau fod gan bawb lais ac y medrant gymryd rhan a helpu i lunio dyfodol ein sir.	Cynyddu amrywiaeth mewn ymgynghoriad	Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg Rheolwr Datblygiad a Darpariaeth Cymunedol	Rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi a galluogi gweithgarwch a arweinir gan y gymuned, gan helpu grwpiau newydd a phresennol i dyfu a chymryd rôl weithredol yn eu cymunedau. Mae hyn wedi cynnwys darparu: - Cymorth ymarferol fel cyngor ar sefydlu grwpiau, llywodraethu a chyllid - Mynediad at gyfleoedd hyfforddiant, mentora a datblygu - Cyfleoedd i grwpiau gysylltu, cydweithio a dysgu oddi wrth ei gilydd Trwy'r dull hwn, rydym wedi cefnogi dros 170 o sefydliadau cymunedol, ochr yn ochr â gwirfoddolwyr a thrigolion, gan helpu i fagu hyder, gallu ac arweinyddiaeth ar lefel leol. Rydym hefyd wedi creu lle i bobl ddod at ei gilydd a dylanwadu ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Er enghraifft: - Mae digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau ymgysylltu wedi dod â dros 1,200 o drigolion at ei gilydd i rannu gwybodaeth, syniadau a blaenoriaethau lleol

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
			Mae mentrau fel Cyllideb y Gymuned wedi galluogi trigolion i gael llais uniongyrchol mewn penderfyniadau cyllido sy'n effeithio ar eu hardal Ochr yn ochr â hyn, mae ein gwaith wedi helpu i gynyddu cyfleoedd i gymryd rhan, gan gynnwys cefnogi dros 260 o gyfleoedd gwirfoddoli a chryfhau rôl grwpiau cymunedol wrth gyflawni gweithgareddau lleol. Ar y cyfan, mae hyn wedi helpu i sicrhau bod mwy o bobl yn teimlo'n gallu cymryd rhan, cael llais, a chyfrannu at lunio dyfodol eu cymunedau. Ein rôl yw galluogi a chefnogi, yn hytrach nag arwain, creu'r amodau i grwpiau cymunedol a thrigolion gymryd perchnogaeth a gyrru newid yn lleol.
Dod yn sir gyfeillgar i oedran a cheisio achrediad gan Sefydliad Iechyd y Byd.	Caiff pobl hŷn eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant Achrediad gan Sefydliad Iechyd y Byd	Swyddog Partneriaethau (Cymunedau Cyfeillgar i Oedran)	Croesawyd Sir Fynwy yn swyddogol i Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau o Blaid Pobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd yn ystod haf 2025. Ochr yn ochr â hyn, llofnododd Cyngor Sir Fynwy Addewid Cyflogwr o Blaid Pobl Hŷn y Ganolfan Heneiddio'n Well. Mae gwaith bellach ar y gweill i gynnull y Bartneriaeth o Blaid Pobl Hŷn, gyda'r nod o ddatblygu cynllun gweithredu cydgysylltiedig a hyrwyddo cyflawniadau i gefnogi pobl hŷn i fyw a heneiddio'n dda ledled Sir Fynwy.
Cefnogi datblygu fforwm ar gyfer pobl anabl.	Pobl anabl â fforwm i lywio gwneud polisi a darpariaeth gwasanaeth	Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg Rheolwr Datblygiad a Darpariaeth Cymunedol	Rydym wedi cynnal tri chyfarfod fforwm ar-lein a fynychwyd gan grwpiau anabl i ymgysylltu a meithrin gallu ac i ddeall eu hanghenion. Ar hyn o bryd rydym yn trafod datblygu fforwm wyneb yn wyneb ac a oes angen hyn. Mae'r fforwm yn cyfarfod bob chwe wythnos ar-lein ar hyn o bryd.

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched a thrais domestig a rhywiol.	Menywod yn teimlo'n fwy diogel o fewn eu hamgylchedd	Rheolwr Partneriaeth Strategol	Rydym yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu asesiad o anghenion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Bydd hyn yn cefnogi'r Bwrdd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol i gryfhau trefniadau monitro, canlyniadau a chomisiynu. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn gwella llif gwybodaeth i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Fynwy, gan alluogi partneriaid i gymryd dull mwy seiliedig ar wybodaeth a chryfhau atal, ymyrraeth gynnar a chanlyniadau i ddioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ledled y sir.
Sicrhau fod gennym lwybr clir ar gyfer y rhai heb unrhyw fynediad i gyllid cyhoeddus.	Cymorth a chynghor ar gael i rai heb hawl i gyllid cyhoeddus.	Rheolwr Partneriaeth Strategol	Rydym wedi datblygu canllawiau ar lwybr dim defnyddio arian cyhoeddus a'u dosbarthu i bob cydweithiwr rheng flaen. Dylai hyn leihau'r risg nad yw'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn syrthio trwy unrhyw fylchau yn y systemau cymorth.
Gwella ein defnydd o ddadansoddiad data a theledu cylch cyfyng i atal troseddau a rhoi tystiolaeth i'r heddlu pan fo troseddau yn digwydd.	Pobl yn teimlo'n fwy diogel o fewn eu hamgylchedd	Rheolwr Partneriaeth Strategol	Rydym yn parhau i ddefnyddio teledu cylch cyfyng ledled y sir, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ganol y prif drefi, i atal a chanfod ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ac anhrefn ehangach. Cynhaliwyd adolygiad o ddarpariaeth teledu cylch cyfyng canol y dref, a nododd fod angen uwchraddio'r seilwaith rhwydwaith, sydd bellach yn cael ei wneud, oherwydd oedran y system, cyfyngiadau mewn effeithiolrwydd, a phroblemau gyda dibynadwyedd. Bydd hyn yn sicrhau bod y system yn gadarn, yn addas i'r diben, ac yn gallu cefnogi atal, tarfu ar, a chanfod troseddau yn effeithiol. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu asesiad anghenion strategol cynhwysfawr ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sir. Bydd hyn yn tynnu ar ystod o asesiadau anghenion rhanbarthol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyflawnwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, y Ddyletswydd Trais Difrifol, ac asesiad o anghenion Cam-drin

Gweithred	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Cynnydd
			Domestig sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Bydd yr asesiad o anghenion yn sefydlu sylfaen dystiolaeth glir i lywio blaenoriaethau ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, gyda'r nod o gryfhau dull a arweinir gan ddeallusrwydd o fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn.
Gwella cymorth tai ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches a grwpiau eraill ar y cyrion.	Cymunedau ar y cyrion yn derbyn cymorth tai	Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau Rheolwr Tai a Chymunedau	Ni wnaeth ein cynnig i ymuno â chonsortium gwledig gydag awdurdod cyfagos i ddarparu llety dros dro i geiswyr lloches o dan raglen Gwasgaru Cymru Gyfan symud ymlaen yn ôl y disgwyl gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'r Cyngor bellach yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Ymfudo Strategol, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Swyddfa Gartref ar Raglen Ailsefydlu Affganiaid a'r dyraniad rhanbarthol ar gyfer Cymru. Mae'r Cyngor wedi cytuno i ddatblygu cynllun peilot dan arweiniad awdurdodau lleol i ddarparu llety trosiannol am hyd at naw mis. O dan y peilot, byddai'r Cyngor yn rheoli'r broses o gyrraedd ac yn cefnogi aelwydydd ar eu taith i ailsefydlu mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Bydd y Cyngor yn helpu Llywodraeth y DU i brofi a all rheolaeth uniongyrchol gan y Cyngor symleiddio gwaith achos a chyflymu'r symudiad i dai sefydlog.
